Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 16 Mawrth 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J E Burtonshaw | M C Child |
| E W Fitzgerald | D W Helliwell | T J Hennegan |
| P K Jones | W G Lewis | G J Tanner |
| W G Thomas | T M White | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| C A Holley | S M Jones | J W Jones |
| P R Hood-Williams | L R Jones | |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Rob Stewart | Yr Arweinydd/Aelod y Cabinet dros Economi, Cyllid a Strategaeth |
| Y Cynghorydd Elliott King | Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Gosney | Rheolwr Partneriaeth Cyfnodau Bywyd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Katie Spendiff | Cydlynydd Hawliau Plant |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Arweiniol Strategol |

---

## 45 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd Mark Child gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 51 "Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd." a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

**46 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**47 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

**48 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**49 Diweddariad/Cynllun Adfer Covid-19.**

Roedd yr Arweinydd/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth, y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn bresennol er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ymateb presennol y cyngor a chynllunio adferiad o bandemig COVID-19.

Darparodd y Prif Weithredwr rai diweddariadau a oedd yn cynnwys: -

- Effaith gadarnhaol y cyfyngiadau symud ar nifer yr achosion, a oedd ar hyn o bryd tua 34 o achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth yn Abertawe.
- Roedd y rhaglen frechu yn mynd rhagddi'n dda gyda thua 128,000 o frechlynnau wedi'u gweinyddu.
- Roedd disgyblion ysgolion cynradd wedi dychwelyd i'r ysgol, ac roedd disgyblion ysgol uwchradd yn dychwelyd yn raddol
- Roedd cyfyngiadau ar waith o hyd ac roedd yn bwysig peidio â bod yn hunanfodlon a pharhau i gadw at y cyfyngiadau hynny
- Mae datblygiad hil newydd o'r feirws yn parhau'n bryder
- Roedd epidemiolegwyr wedi rhagweld cynnydd yn y feirws – mae graddau'r cynnydd hwn yn parhau'n ansicr ac yn anodd i'w ragweld gan ei fod yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel cyfyngiadau, cyflenwad parhaus o frechlynnau, cyflenwad y brechlyn a nifer y bobl sy’n cael y brechlyn.

Tynnodd y Dirprwy Brif Weithredwr sylw at yr agweddau canlynol mewn perthynas â'r cynllun adferiad:-

- Bu ton arall o'r feirws ers cymeradwyo adroddiad y Cabinet ym mis Hydref 2020
- Adolygiad Llywodraethu – adolygu a symleiddio llywodraethu a chreu grŵp llywio newydd
- Ffrydiau gwaith ac amserlen cyfarfodydd
- Y diweddaraf ar gamau gweithredu, a oedd yn cynnwys:
    - Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe
    - Rhaglen Gyfalaf Safonau Ansawdd Tai Cymru a Chydymffurfiaeth
    - Gweithio gartref yn ystod COVID-19
    - Arolwg Staff ar weithio gartref

  - Nodyn briffio i reolwyr ar gymorth i staff
  - Strategaeth Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad
  - Polisi Gweithio'n Ystwyth
- Olrhain Cyflawni ar gyfer targedau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Canolbwyntiodd cwestiynau a thrafodaethau â'r Arweinydd a'r Swyddogion ar y canlynol:

- Trefniadaeth drawiadol gan y rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen frechu
- Sylw yn y wasg yn ddiweddar ynghylch Brechlyn AstraZeneca ac effaith bosib
- Cyfleoedd i Aelodau gyfrannu at y Cynllun Adferiad – y broses o wneud penderfyniadau
- Aelodaeth Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector yn y ffrwd Waith Cymorth Gymunedol – gan gynnwys a oedd presenoldeb amgylcheddol
- Aelodaeth o'r Gweithgor Newid yn yr Hinsawdd yn ffrwd gwaith yr Economi a'r Amgylchedd
- Heriau'r Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - diffyg canllawiau statudol, amserlenni, adnoddau ar gyfer asesiadau perfformiad ac adolygiadau cymheiriaid ynghyd â sicrhau bod gweithio ar y cyd yn gynhyrchiol ac yn effeithlon
- Cyfleoedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – pŵer cymhwysedd cyffredinol, strategaeth cyfranogiad cyhoeddus, gallu a chyfleoedd cydweithredu a chydbwyllgorau corfforaethol
- Cysylltu ffrydiau gwaith a gweithio mewn partneriaeth
- Gweithio mewn partneriaeth ar adferiad Abertawe

Diolchodd y Pwyllgor i'r holl staff am eu gwaith yn ystod y pandemig.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at yr Arweinydd, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 50 Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc - Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2020.

Roedd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant, y Comisiynydd Arweiniol Strategol, y Cydlynydd Hawliau Plant a Rheolwr Partneriaeth Cyfnodau Bywyd yn bresennol ar gyfer yr adroddiad ar Adroddiad Cynnydd Blynyddol Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2020. Darparwyd Adroddiad Pontio hefyd ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 ac effaith y pandemig. Amlygwyd y prif bwyntiau canlynol: -

- Effaith a phroblemau COVID-19 a'r cyfyngiadau symud ar blant a phobl ifanc – cynnydd mewn anghydraddoldebau
- Gwersi a ddysgwyd drwy'r pandemig gan gynnwys enghreifftiau o arfer ymgysylltu yn ystod y cyfyngiadau symud
- Enghreifftiau o arfer ymgysylltu yn ystod COVID-19
- Weithiau gallai cyfarfodydd ar-lein gynnig mwy o gyfle i gynyddu cysylltiad
- Ailstrwythuro Tîm Cyfnodau Bywyd y cyngor

- Diwygiad arfaethedig i'r Cynllun Hawliau Plant – datblygu 'cynllun ar dudalen' – roedd y ddogfen hygyrch hon wedi'i chasglu gan y Comisiynydd Plant fel enghraifft o arfer da i'w rhannu ledled Cymru
- Ailstrwythuro ac Ailfodelu gwaith Hawliau Plant
- Bylchau ac Argymhellion ar gyfer adferiad o Covid-19
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn ystod y cyfyngiadau symud heb fod y pwyntiau mynediad arferol fel yr ysgol a gwasanaethau eraill ar gael
- Roedd pobl ifanc wedi bod yn ymwneud â phenodiadau'r Cyfarwyddwr Addysg a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:-

- Diogelu hawliau
- Ystyried pleidleisiau yn 16 oed – sut i gefnogi llythrennedd gwleidyddol plant a phobl ifanc i'w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus wrth bleidleisio
- Sefyllfa ysgolion nad oeddent yn ymwneud â pharchu hawliau – roedd y ffordd y gweithredwyd parchu hawliau wedi newid ac yn cael ei chyflwyno i'r cwricwlwm newydd
- Posibilrwydd o gael hyrwyddwr CCUHP ym mhob ysgol

Diolchodd y Comisiynydd Arweiniol Strategol i Aelodau'r Cabinet a'r Cynghorwyr am gefnogi a datblygu'r gwaith hwn, yn ogystal â'r swyddogion.

Diolchodd y Cadeirydd ac Aelod y Cabinet i'r Cynghorydd Sam Pritchard, cyn-aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant.

Diolchwyd Aelod y Cabinet a'r Swyddogion gan y Cadeirydd

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 51 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd. (Y Cynghorwyr Paxton Hood-Williams a Susan Jones, Cynullwyr)

Cyflwynodd y Cynghorwyr Paxton Hood-Williams a Susan Jones, Cynullwyr, Adroddiad Cynnydd Panel Craffu Perfformiad ar y Cyd y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn dilyn yr adroddiad ysgrifenedig, tynnwyd sylw'n benodol at y ffaith bod Panel Craffu Perfformiad Gwasanaethau i Oedolion a Phanel Craffu Perfformiad Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd wedi dod at ei gilydd i ffurfio Panel Craffu Perfformiad ar y Cyd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y pandemig er mwyn cynnal craffu, ond heb roi gormod o bwysau ar swyddogion wrth eu bod yn ymdrin â'r pandemig.

Roedd y prif bryderon yn ymwneud â gofalwyr ac iechyd meddwl.

Roedd y paneli bellach wedi rhannu eto yn eu paneli ar wahân a byddai cyfarfodydd yn y dyfodol yn edrych ar gyllideb a chydweithio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Diolchodd y cynullwyr a'r Cadeirydd i'r staff am eu holl waith yn ystod y pandemig.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 52 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth paneli a gweithgorau craffu. Ni chafwyd unrhyw ddiwygiadau.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 53 Rhaglen Waith Craffu ar Gyfer 2020/22.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am Raglen Waith Craffu 2020/22.

Trefnwyd Pwyllgor nesaf y Rhaglen Graffu ar 13 Ebrill 2021. Y brif eitem a drefnwyd oedd y Strategaeth Digartrefedd.

Nododd y Cadeirydd fod COVID-19 wedi'i drefnu bob deufis ar gynllun gwaith y Pwyllgor, ac awgrymwyd, o ystyried yr amser y gallai adferiad gymryd, y gallai diweddariadau bob deufis fod yn rhy aml ac y gellid trefnu eitemau eraill yn y cynllun. Byddai'r Arweinydd a Chadeirydd y Tîm Craffu yn trafod diweddaru'r cynllun gwaith ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 54 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Lythyrau Craffu' er gwybodaeth.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 55 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfod nesaf y paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.45 pm

**Cadeirydd**